ADOLYGIAD O YSGOLION ARDAL BRYNFFORDD, LICSWM A RHOSESMOR

Cwestiynau cyffredin sesiynau galw heibio

1. Pam fod yr Awdurdod Lleol yn adolygu ysgolion?

Gweler yr Arfarniad Opsiynau, tudalen 3.
(http://www.siryfflint.gov.uk/cy/PDFFiles/Lifelong-Learning/Schools/School-Modernisation-Area-Schools-Review/BrynfordLixwmRhosesmorDocs/Option-Appraisal-Document.pdf)

2. Pam fod fy ysgol wedi cael ei chynnwys?

Gweler yr Arfarniad Opsiynau, tudalen 4.
(http://www.siryfflint.gov.uk/cy/PDFFiles/Lifelong-Learning/Schools/School-Modernisation-Area-Schools-Review/BrynfordLixwmRhosesmorDocs/Option-Appraisal-Document.pdf)

3. Beth yw Adolygiad Ysgolion Ardal?

Gweler yr Arfarniad Opsiynau, tudalen 3.
(http://www.siryfflint.gov.uk/cy/PDFFiles/Lifelong-Learning/Schools/School-Modernisation-Area-Schools-Review/BrynfordLixwmRhosesmorDocs/Option-Appraisal-Document.pdf)

4. Beth yw'r opsiynau ar gyfer yr ardal?

Gweler yr Arfarniad Opsiynau, tudalen 3.
(http://www.siryfflint.gov.uk/cy/PDFFiles/Lifelong-Learning/Schools/School-Modernisation-Area-Schools-Review/BrynfordLixwmRhosesmorDocs/Option-Appraisal-Document.pdf)

5. Pryd fydd rhieni/gofalwyr a staff yn ein hardal yn cael eu cynnwys?

Dechreuodd Ymgynghoriad Anffurfiol ar yr opsiynau i'r ardal (Brynffordd, Licswm a Rhosesmor) ar 1 Gorffennaf 2016 a daw i ben ar 19 Awst 2016. Trefnwyd sesiynau galw heibio ym mhob un o ysgolion yr ardal ar gyfer rhanddeiliaid a wahoddwyd. Roedd y digwyddiadau hyn yn gyfle i randdeiliaid holi cwestiynau, adolygu a thrafod yr opsiynau a rhoi eu barn a'u safbwyntiau i'r Cyngor. Roedd y sesiynau hyn ar agor i rieni, gofalwyr, staff a llywodraethwyr o bob ysgol ac fe'u cynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:

- Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor – Dydd Llun 4 Gorffennaf 2016, 5pm – 6pm
- Ysgol Gynradd Licswm - Dydd Iau 7 Gorffennaf 2016, 5pm-7pm;
- Ysgol Gynradd Brynffordd - Dydd Llun 11 Gorffennaf 2016, 6pm-8pm.

6. Beth os na allaf fynychu'r sesiwn galw heibio?

Mae'r holl ddogfennau ar gael drwy glicio ar y ddolen ganlynol http://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Brynffordd-Licswm-Maes-Rhosesmor.aspx

Gall unrhyw un sy'n dymuno rhoi eu barn a'u safbwyntiau wneud hynny mewn nifer o ffyrdd megis llythyr, e-bost neu drwy gwblhau arolwg ar-lein.

Drwy'r post:
Tîm Moderneiddio Ysgolion, Cyngor Sir y Fflint, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 6ND

Trwy e-bost
21stcenturyschools@flintshire.gov.uk.

Ar-lein
Mae ffurflen ymateb hefyd ynghlwm ar ffurf copi caled ar ddiwedd y ddogfen hon. Gellir ei dychwelyd naill ai drwy'r post neu e-bost i'r cyfeiriadau uchod. Yn ogystal, gellir llenwi'r ffurflen yn electronig drwy ddefnyddio'r ddolen ganlynol:

https://www.surveymonkey.co.uk/r/ASRLBR

Os bydd angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch neu os hoffech holi unrhyw gwestiynau gallwch ffonio'r Tîm Moderneiddio Ysgolion ar 01352 704134/4014

7. Rwy'n breswylydd / aelod o'r gymuned, pam nad oeddwn i'n cael mynychu sesiwn galw heibio?

Nid yw'n ofynnol cynnal cyfarfodydd cyhoeddus, felly roedd y sesiynau galw heibio yn arbennig ar gyfer rhieni, gofalwyr, staff a llywodraethwyr, er hynny mynychodd aelodau o'r gymuned bob sesiwn. Fodd bynnag, gwerthfawrogwn fod barn y gymuned hefyd yn bwysig a gan hynny rydym yn croesawu'ch barn. Gweler cwestiwn 6.

8. Pam ydych yn trafferthu cynnal Ymgynghoriad Anffurfiol? Onid yw'r penderfyniad eisoes wedi'i wneud?

Nid oes unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud. Ni all y Cabinet sef penderfynwyr cyfansoddedig y Cyngor wneud penderfyniadau o flaen llaw. Mae barn rhanddeiliaid yn bwysig i'r Cyngor, gan hynny fe'ch anogir i lenwi arolwg a chynnig eich barn ynglŷn â'r opsiynau a gyflwynir ar gyfer yr ardal. Bydd pob gohebiaeth a dderbynnir yn ystod yr ymgynghoriad ar gael i benderfynwyr (y Cabinet) ynghyd ag adroddiad clawr a gwaith yr

arfarniad opsiynau. Bydd aelodau'r Cabinet yn ystyried pob gohebiaeth yn ofalus cyn penderfynu ar yr opsiwn mwyaf addas i'w weithredu ar gyfer yr ardal.

9. Os yw'r cymunedau'n dangos bod ganddynt opsiwn dewisedig clir yn y sesiynau galw heibio, ai hwnnw yw'r opsiwn a ddewisir gan y Cabinet?

Bydd y Cabinet yn dod i benderfyniad yn seiliedig ar yr holl dystiolaeth, barn y rhanddeiliaid, nodau strategol y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion a'r Cyngor, efallai y bydd eu penderfyniad yn cyd-fynd â dewis y gymuned neu efallai y bydd yn wahanol. Yn y gorffennol mae'r Cabinet wedi cael ei berswadio gan randdeiliaid pan fo opsiwn clir wedi bod i sicrhau model Addysg cynaliadwy i'r ysgol neu'r ardal.

10. Pryd fydd penderfyniad yn cael ei wneud gan y Cabinet ac, os bydd Opsiwn 2 neu 3 yn cael eu dewis, pryd fyddant yn cael eu cwblhau?

Bydd y Cabinet yn cyfarfod yn hydref 2016 i benderfynu pa opsiwn y dylai swyddogion ei ddewis. Os dewisir opsiwn 2 neu 3, bydd angen cynnal ymgynghoriad ffurfiol pellach gyda'r ysgolion a'r rhanddeiliaid a effeithir drwy'r Cod Trefniadaeth Ysgolion. Hefyd bydd angen buddsoddi cyfalaf felly bydd angen cyflwyno achosion busnes i Lywodraeth Cymru (LlC). Yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol gan LlC, ni fydd cyllid rhaglen Band B 21ain Ganrif ar gael tan 2019, dyna fyddai'r dyddiad buddsoddi cyfalaf cynharaf o'r ffynhonnell ariannol hon. Bydd y Cyngor yn ceisio darparu mwy o wybodaeth am amserlenni ar adeg priodol yn y dyfodol. Bydd gwybodaeth bellach yn cael ei darparu i'r ysgolion ac yn cael ei gosod ar wefan y Cyngor.

11. Pam nad yw safle Licswm yn cael ei gynnwys yn yr Arfarniad Opsiynau Adeiladau?

Mae pob opsiwn wedi'u cymharu yn erbyn yr un meini prawf, sef Bwletin Adeiladu 99 a Rheoliadau Safleoedd Ysgolion. Mae'r rhain yn rhagnodi cymysgedd o gyfleusterau a darpariaethau arwynebedd (mewnol ac allanol) sy'n ofynnol wrth ddylunio ysgolion. Oherwydd arwynebedd cyfyngedig safle Ysgol Gynradd Licswm, nid yw'r tir sydd ar gael ar hyn o bryd yn ddigon mawr i ofynion dylunio a darpariaethau arwynebedd ar gyfer opsiwn 2 a 3.

12. Beth os nad wyf yn dymuno anfon fy mhlentyn i un o'r ysgolion newydd?

Gall rhieni wneud cais am ddewis unrhyw ysgol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn gweinyddu derbyniadau i ysgolion drwy'r polisi derbyn disgyblion. Ceir manylion llawn

Polisi Derbyn Disgyblion yr Awdurdod Lleol yma:
http://www.siryfflint.gov.uk/cy/PDFFiles/Lifelong-Learning/Schools/School-Admissions/Guide-to-Education-Services-2016.pdf

13. Rwyf wedi dewis yr ysgol gynradd hon oherwydd y dalgylch uwchradd, a fydd y newidiadau arfaethedig yn effeithio ar hyn?

Nid yw Cyngor Sir y Fflint yn gweithredu system dalgylch ac nid oes ganddo ysgolion cynradd bwydo.

Mae'r Polisi Derbyn Disgyblion yn seiliedig ar leoliad daearyddol yr ysgol uwchradd (h.y. y pellter gwirioneddol o'r cartref i'r ysgol) ac nid ar sail dalgylch neu ysgolion bwydo. Gweler y polisi uchod.

14. A fyddai fy mhlentyn yn cael cludiant am ddim er ein bod yn byw llai na 2 filltir o'r ysgol ardal arfaethedig newydd?

Darperir cludiant am ddim os yw'ch plentyn o oedran ysgol statudol ac os yw'r ysgol agosaf dan 2 filltir (cynradd) ond lle tybia'r Cyngor fod y llwybr yn un peryglus. Byddai angen asesu amgylchiadau unigol i bennu cymhwyster ar gyfer cludiant am ddim.

Ceir manylion llawn Polisi Cludiant yr Awdurdod Lleol yma:
http://www.siryfflint.gov.uk/cy/PDFFiles/Lifelong-Learning/Schools/School-Transport/Transport-Eligibility-Criteria-.pdf

15. A fydd unrhyw un o'r newidiadau arfaethedig yn gwella safonau addysgu?

Mae ad-drefnu ysgolion yn gyfle i wella safonau addysgol yn yr ardal mewn nifer o ffyrdd.

Mae bod yn rhan o dîm mwy o staff yn galluogi athrawon unigol i ddysgu oddi wrth ystod fwy eang o gydweithwyr sydd â gwahanol sgiliau a phrofiadau; mae'n eu galluogi i rannu ymarfer gorau yn well a gwella sgiliau addysgu pawb ac mae hyn yn cael effaith uniongyrchol ar wella canlyniadau'r dysgwyr.

Mewn ysgolion bach iawn, mae'r athrawon yn aml yn gyfrifol am nifer fawr o bynciau a gall hynny greu llwyth gwaith mawr. Ambell waith nid yw hynny'n caniatáu i arbenigedd penodol gael ei ddatblygu a'i rannu. Mae gwasgaru cyfrifoldebau arweinyddiaeth y cwricwlwm ar draws nifer fawr o staff yn sicrhau fod llwyth gwaith pawb yn rhesymol ac mae'n annog athrawon i ddatblygu eu gwybodaeth ymhellach am bynciau mewn meysydd

o ddiddordeb a/neu arbenigedd. Gellir gwasgaru hyn ar draws y staff drwy gyfrwng model arweinyddiaeth gwasgaredig teg.

Mae bod yn rhan o ysgol fwy hefyd yn rhoi gwell cyfleoedd i athrawon addysgu mewn gwahanol grwpiau blwyddyn sy'n ehangu eu profiad ac yn gwella eu dealltwriaeth o ddisgwyliadau gan grwpiau blwyddyn eraill. Mae hyn yn atgyfnerthu eu dealltwriaeth o'r cwricwlwm a methodolegau addysgu e.e. Cyfnod Sylfaen/Cyfnod Allweddol 2. Yn ei dro, mae hyn yn cyfrannu at dîm ysgol cryfach yn gyffredinol. Gall effeithio'n bositif ar safonau cyflawni gan y gall arwain at fwy o gysondeb o ran dulliau gweithio a rhannu arbenigedd rhwng cydweithwyr.

Gall hefyd ddarparu gwell cynaliadwyedd o ran cyllidebau a swyddi sydd, yn ei dro, yn rhoi cyfle i Benaethiaid a Llywodraethwyr wneud y gorau o'r adnoddau sydd ganddynt i gynorthwyo i godi safonau disgyblion e.e. cymorth i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, Sgiliau Sylfaenol, Saesneg fel Iaith Ychwanegol a Disgyblion Mwy Galluog a Thalentog.